**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**28ain Gorffennaf 2008**

## DATGANIAD BLYNYDDOL O SICRWYDD ARCHWILIAD MEWNOL 2007/08

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

### Diben yr Adroddiad

**1.** O dan dermau rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae angen i'r Awdurdod ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei systemau o Reolaeth Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan anhepgor o'r system honno, ac yn gyfrannydd arwyddocaol wrth baratoi Datganiad o Reolaeth Mewnol, sydd angen ei gynnwys yn y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

**2.** Mae Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU 2006 yn gofyn i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ar y system o reolaeth fewnol, gan gynnwys digonolrwydd trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Hefyd, dylid nodi na all sicrwydd fod yn absoliwt. Mwyaf all Archwiliad Mewnol ddarparu i'r Panel Gweithredol yw sicrwydd rhesymol nad oes dim gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

**3.** Mae'r adroddiad yn cynnwys datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar waith yr Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar Fawrth 2008. Cefnogir yr Adroddiad gan Atodiad A, sy'n manylu opsiynau archwilio'r aseiniadau gwblhawyd yn ystod 2007/08.

## Cyflwyniad

### Rôl Archwiliad Mewnol

**4.** Rôl yr Adran Archwiliad Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i reolwyr os yw'r systemau a rheolau yn gweithio'n ddigonol. Mae'n rhan allweddol o system reoli fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolau eraill er mwyn fod:

- y Panel Gweithredol a'r uwch reolwyr yn ymwybodol o ba raddau allant ddibynnu ar y system gyfan; a
- rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolau maen nhw'n gyfrifol amdanynt.

**5.** Mae'r system reoli fewnol yn cynnwys y rhwydwaith gyfan o systemau a rheolau sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, i sicrhau gellir cwrdd â'i amcanion. Mae'n cynnwys rheolau ariannol yn ogystal â rheolau eraill ynghyd â threfniadau i sicrhau fod yr Awdurdod yn cyflawni gwerth am arian o'i weithgareddau.

### Diffiniad o Archwiliad Mewnol

**6.** Mae'r diffiniad o archwiliad mewnol, fel y'i disgrifir yng Nghod Ymarfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Lleol yn y DU 2006 wedi cael ei osod isod:

- Mae Archwiliad Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd, sy'n bennaf, yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd rheoli sy'n cynnwys rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu drwy werthuso ei effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd yn ôl yn wrthrychol ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheoli fel cyfraniad tuag at y defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

## **Diffiniad o Archwiliad Mewnol** *(parhad)*

- Tra bod Archwiliad Mewnol yn "bennaf" yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd reoli, efallai bydd yn ymgymryd â gwaith arall, heb sicrwydd ar gais y sefydliad yn ôl argaeledd sgiliau ac adnoddau. Gallai hyn gynnwys gwaith ymgynghorol; yn wir, mae Archwiliad Mewnol yn cyflwyno gwasanaethau ymgynghori wrth wneud argymhellion i welliannau sy'n codi o waith sicrwydd a gwaith sy'n ymwneud a thwyll.

## **Datganiad ar Reolaeth Fewnol**

**7.** Daeth y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad diwygiedig i rym o'r 1af Ebrill 2005 mewn perthynas â holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gofyn i bob awdurdod ymgymryd ag adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol ac i gynnwys datganiad ar reolaeth fewnol, sydd wedi ei baratoi yn unol ag arfer priodol, yn ei gyfrifon blynyddol. Mae Archwiliad Mewnol yn cyfrannu at gynnwys tystiolaeth y datganiad o reolaeth fewnol, er bydd gweithgareddau eraill o'r Awdurdod angen cynhyrchu tystiolaeth i gefnogi unrhyw ddatganiad wneir.

**8.** Mae gwneud Datganiad ar Reolaeth fewnol yn dod â nifer o fuddion pwysig i lywodraeth leol:

- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o reolaethau mewnol a gwendidau rheoli a rheoli risg ymysg aelodau a rheolwyr;
- gwell ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd o adnabod a monitro risg ymysg staff ar bob lefel;
- gwerthfawrogiad gwell o'r buddion o swyddogaeth archwilio fewnol gryf;

**Datganiad ar Reolaeth Fewnol** *(parhad)*

- gwell ymwybyddiaeth o'r holl amrediad o ffynonellau sicrwydd mewnol a thrydydd parti eraill sy'n gweithredu o fewn y sefydliad a phwysigrwydd y swydd maent yn gyflawni; cynyddu ac annog gweithgaredd y Panel Gweithredol.

**Ffactorau sy'n dylanwadu a'r Faint y Gwaith Archwiliad Mewnol**

**9.** Mae'n amlwg o'r Datganiad o Weithgaredd Archwilio Mewnol ar gyfer 2007/08 fod yr adolygiad o Reoli Rhwydwaith oedd wedi ei drefnu ar gyfer 2007/08 wedi ei ohirio hyd 2008/09 ar gais rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r adolygiad i gychwyn ym mis Mai 2008 a bydd y profion archwilio wedi eu selio ar 2007/08.

**Y DATGANIAD O SICRWYDD**

**Rhaglith**

**10.** Rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Panel Gweithredol ar yr holl system o reolaeth fewnol, gan gynnwys digonolrwydd trefniadau rheoli risg a llywodraethiad corfforaethol. Fe ddylid nodi na all sicrwydd fod yn absoliwt. Y mwyaf gallai Archwiliad Mewnol ddarparu i'r Panel Gweithredol yw sicrwydd rhesymol nad oes dim gwendidau mawr yn yr holl system o reolaeth fewnol.

**11.** Y materion godir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai ddaeth i'n sylw ni yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yn unig ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, neu o'r holl welliannau sydd eu hangen.

**Sicrwydd Cyffredinol**

**12.** Mae gwaith yr Adran Archwilio Mewnol wedi cael ei arwain mewn cydymffurfiaeth â'r safonau archwilio mewnol sydd wedi eu cynnwys yng Nghod Ymarfer i Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006.

**Barn Archwilio**

**13.** Rwy'n fodlon fod y gwaith archwilio ymgymerwyd ag ef, ynghyd â'r wybodaeth rydym yn gadw ar y sefydliad a'i weithdrefnau yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg a llywodraethu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn fy marn i, yn y 12 mis ddaeth i ben 31ain Mawrth 2008, mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru brosesau rheoli mewnol a llywodraethiad corfforaethol boddhaol i reoli'r cyflawniad o amcanion yr Awdurdod.

**Sicrwydd**

**14.** Yn fy marn i, mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru brosesau rheoli digonol ac effeithiol i reoli ei gyflawniad o amcanion yr Awdurdod ar gyfer y 12 mis hyd 31ain Mawrth 2008. Wrth gyrraedd y farn hon, ystyriwyd y ffactorau canlynol:

- Mae Archwiliad Mewnol yn ymgymryd â gweithrediad dilynol o fewn chwe mis o gyhoeddi'r adroddiad terfynol mewn perthynas ag aseiniadau archwilio. Diben yr adolygiad dilynol yw i bennu amserlenni ac effeithiolrwydd gweithrediad yr argymhellion wnaed i'r rheolwyr. Mae'r broses adolygu ddilynol yn dynodi fod y rheolwyr wedi gweithredu neu yn y broses o weithredu'r holl argymhellion wnaed yn ein adroddiadau archwilio sy'n berthnasol i 2006/07.

**Sicrwydd** *(parhad)*

- Mae atodlen sy'n rhoi barn archwiliad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli mewn perthynas â'r holl aseiniadau archwilio ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn ynghlwm yn Atodiad A. Aseswyd yr holl archwiliadau ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn fel darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.

**15.** Gall y farn archwilio cyffredinol gael ei ddefnyddio wrth baratoi'r Datganiad o Reolaeth Fewnol blynyddol.

**DADANSODDIAD O'R GWAITH YMGYMERWYD AG EF A DIFFINIAD O ARGYMHELLION A BARNAU ARCHWILIAD**

**16.** Mae'r atodlen yn Atodiad A yn manylu'r casgliadau ar yr aseiniadau mae'r Archwiliad Mewnol wedi adrodd arnynt yn ystod y flwyddyn. Mae Safon 10 o God Ymarfer CIPFA i Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU 2006 yn gofyn fod argymhellion Archwiliad Mewnol yn cael eu blaenoriaethu i adnabod eu risgiau'n glir. Mae'r categoreiddiad yr argymhellion yn hysbysu'r farn archwilio mewn perthynas â phob archwiliad. Wedyn, bydd crynodeb o bob barn archwilio wneir yn ystod y flwyddyn ariannol yn hysbysu'r broses lle mae angen i Bennaeth Archwilio a Gwasanaethau Caffel gynnwys barn ar ddigonolrwydd cyffredinol ac effeithiolrwydd amgylchedd reolaeth fewnol yr Awdurdod o dan y Cod uchod, yn ei adroddiad blynyddol, ffurfiol i'r Panel Gweithredol.

**Categorïau Graddio Risg**

**17.** Categoreiddir yr argymhellion fel a ganlyn:

**<u>CATEGORI : UCHEL</u>**

Mae'r categori yma'n cynrychioli gwendid sylfaenol lle ystyrir fod gweithrediad yn orfodol i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i risgiau uchel. Torri deddfwriaeth neu weithdrefnau'r Awdurdod, yn cynnwys Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chytundeb, neu wendidau systemau sylfaenol lle mae absenoldeb rheolaeth allweddol ac ati. Os fydd rheolaeth allweddol/bwysig yn absennol, yna mae'r argymhelliad cysylltiol fel arfer wedi ei raddio'n uchel.

**<u>CATEGORI : CANOLIG</u>**

Yn nhermau risgiau canolig, ystyrir gweithrediad yn orfodol i osgoi amlygiad i risgiau arwyddocaol. Mae'r categoreiddio yma'n cael ei ddefnyddio lle mae tystiolaeth o reolaethau da yn eu lle ond fod eu cymhwysiad yn anghyson, neu mae rheolaeth llai pwysig yn absennol a byddai'r rheolaeth gyffredinol yn gwella gan ei bresenoldeb.

**<u>CATEGORI : ISEL</u>**

Ystyrir fod gweithrediad yn ddymunol ac fe ddylai wella rheolaeth neu gwerth am arian. Mae'r categori'n gymwys lle mae ymwybyddiaeth o arfer gwell, ond parheir i gwrdd â nodau rheolaeth lle mae gweithgaredd/gwerth cyfredol yn ac yn debygol o aros yn isel, felly mae'r lefel o risg yn cael ei bennu fel isel ac yn cael ychydig effaith ar y 'Farn Archwilio'.

**Barn archwilio**

**18.** Bydd canlyniad yr archwiliad gwerthusiad digonolrwydd yr amgylchedd reoli mewnol yn seiliedig ar y nifer o argymhellion wneir o'u gradd risg. Mae'r broses hon yn hysbysu'r Farn Archwilio ac mae'r diffiniadau canlynol wedi cael eu cynhyrchu er mwyn galluogi archwilwyr i wneud asesiadau priodol mewn perthynas â'r Farn Archwilio sydd wedi ei gynnwys ar ddiwedd pob adroddiad archwiliad.

**Diffiniadau o Farnau Archwiliad**

**19.** Yn y cyd-destun hwn, gellir gweld "risg" fel y siawns, neu'r tebygolrwydd, fod un neu fwy o amcanion yr Awdurdod yn methu cael eu gwireddu. Mae'n cyfeirio at ganlyniadau digroeso efallai fydd yn codi ac i'r methiant potensial o sylweddoli'r canlyniadau fwriadwyd.

**<u>DA</u>**

Mae rheolaethau yn eu lle i sicrhau fod nodau gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i amddiffyn yr Awdurdod yn erbyn risgiau rhagweladwy arwyddocaol. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wallau materol nag esgeulustra arwyddocaol.

**<u>BODDHAOL</u>**

Mae rheolaethau yn eu lle i alluogi'r cyflawniad o nodau'r gwasanaeth, a lliniaru'n erbyn risgiau rhagweladwy arwyddocaol. Fodd bynnag, adnabuwyd rhai enghreifftiau o fethiant i gydymffurfio gyda'r broses rheoli ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru ymhellach yn erbyn risgiau potensial.

**<u>DIGONOL</u>**

Cydymffurfir gyda'r rheolau sydd yn eu lle i raddau amrywiol ond mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Felly, mae angen i gyflwyno'r rheolaethau ychwanegol a gwella'r cydymffurfiad gyda rhai sy'n bodoli eisoes, i ostwng y risg i'r Awdurdod.

**ANFODDHAOL**

Ystyrir fod y rheolaethau yn annigonol gydag absenoldeb o leiaf un mecanwaith rheoli hanfodol. Mae'r angen i wella'r cydymffurfiad gyda'r rheolau presennol hefyd, ac mae gwallau wedi cael ei canfod. Mae methiant i wella'r rheolau yn gadael yr Awdurdod yn agored i risg arwyddocaol, allai arwain at golled ariannol mawr, embaras neu fethiant i gyflawni nodau allweddol y gwasanaeth.

**Gwendidau Cyffredin**

**20.** Nid oes ffactor gyffredin sy'n cysylltu'r gwendidau adnabuwyd fel rhan o'r gwaith mewnol ar gyfer 2007/08 ac nid oes materion penodol neu bryderon sy'n berthnasol i'r paratoad o'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

**Materion eraill**

**Cymwysterau i'r Farn Archwilio**

**21.** Wrth roi barn archwiliad, fe ddylid nodi na all sicrwydd fod yn absoliwt. Y mwyaf all y gwasanaeth archwilio mewnol ddarparu i'r Panel Gweithredol yw sicrwydd rhesymol sy'n seiliedig ar y gwaith ymgymerwyd ag ef yn flwyddyn honno, nad oes gwendidau mawr oni bai am y rhai adnabuwyd.

**22.** Mae cymwysterau i'r Farn Archwilio wedi ei gosod ym mharagraffau 11, 12 ac 13. Hefyd, wrth gyrraedd ein barn, rydym wedi cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- canlyniadau'r holl archwiliadau ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2008;
- canlyniadau'r gweithredoedd dilynol gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau o flynyddoedd blaenorol;
- pa un ai os yw unrhyw argymhellion categori Uchel neu Ganolig heb eu derbyn gan y rheolwr a'r risgiau dilynol;
- effeithiau unrhyw newidiadau materol i nodau ac

amcanion yr Awdurdod;
- materion sy'n codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol;
- pa un ai os oes unrhyw gyfyngiadau wedi cael eu gosod ar sgôp archwiliad mewnol;
- y cyfyngiad mewn adnoddau sydd wedi cael ei osod ar yr Archwiliad Mewnol sydd wedi ardaro ar allu'r Adran i gwrdd ag anghenion archwiliad llawn yr Awdurdod;
- pa gyfran o anghenion archwiliad mewnol llawn yr Awdurdod ymdriniwyd â hwy hyd heddiw.

**Derbyn Argymhellion**

**23.** Mae'r rheolwyr wedi derbyn 100% o'r argymhellion wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.  Does dim argymhellion categori Uchel na Chanolig rydym ni'n ystyried nad ydynt yn derbyn sylw digonol gan y rheolwyr.

**Y Ddibyniaeth a Roir ar Waith gan Gyrff Sicrwydd Eraill**

**24.** Mae Archwiliad Mewnol yn rhoi peth dibyniaeth ar waith ymgymerwyd gan KPMG, archwilwyr allanol yr Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol wrth ddrafftio adroddiadau blynyddol a llunio ein barn flynyddol o'r cyfnod hwn.

**Materion fernir yn Berthnasol i'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol**

**25.** Yn seiliedig ar waith yr Adran Archwiliad Mewnol yn ystod 2007/08 does dim meysydd arwyddocaol o wendid sy'n gofyn am sylw yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar gyfer 2007/08.

**Cydymffurfiad gyda Safonau Archwiliad Mewnol**

**26.** Mae Archwiliad Mewnol yn defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar risg wrth bennu anghenion archwilio'r awdurdod ar gychwyn y flwyddyn ac yn defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risg wrth gynllunio ac arwain ein aseiniadau archwilio. Mae gwaith yr adran Archwilio Mewnol wedi cael ei berfformio mewn cydymffurfiad â Chod Ymarfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006 CIPFA.

**27.** Mae Archwiliad Mewnol yn amodol ar adolygiad blynyddol gan Archwiliad Allanol i bennu cydymffurfiad gyda'r safonau archwilio sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymarfer. Mae'r adolygiad diweddaraf mewn perthynas â 2006/07 wedi achosi cynllun gweithredu sy'n cynnwys 2 argymhelliad sydd angen cyfeirio atynt. Mae copi o'r cynllun gweithredu ynghlwm fel Atodiad B. Mae'r holl argymhellion ystyriwyd yn gyfrifoldeb Pennaeth Archwiliad Mewnol wedi eu gweithredu'n llawn.

**28.** Mae Pennaeth Archwiliad Mewnol wedi gwneud darpariaeth am adolygiadau ansawdd mewnol sydd i'w hymgymryd yn gyfnodol gan aelodau profiadol o'r swyddogaeth archwilio mewnol i werthuso:

- Cydymffurfiad gyda safonau trefniadol a gweithredol gyfeiriwyd atynt ym mharagraff 26,
- ansawdd y gwaith archwilio,
- ansawdd y goruchwylio,
- cydymffurfiad gyda'r llawlyfr archwiliad lleol,
- y cyflawniad o ddangosyddion perfformiad.

Mae'r adolygiad wnaed mewn perthynas â'r gwaith berfformiwyd yn ystod 2007/08 wedi arddangos cydymffurfiad gyda safonau mewnol ac allanol.

**Rhaglenni Sicrwydd Ansawdd Mewnol**

**29.** Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith berfformiwyd gan yr Archwiliad Mewnol, mae amrediad o fesurau ansawdd yn eu lle sy'n cynnwys:

- Goruchwylio staff sy'n gwneud gwaith archwilio;
- Adolygiad wedi ei ddogfennu o'r holl ffeiliau o bapurau gweithredol ac adroddiadau gan reolwyr;
- Gwerthusiad blynyddol o staff archwilio sydd wedi achosi cynllun gweithredu datblygu personol a hyfforddi. Mae'r Adran yn defnyddio Pecyn Hyfforddiant Archwilio CIPFA – 'Yr Hyfforddwr Ardderchog' - i bennu anghenion hyfforddiant unigol;
- Cynhaliaeth o Lawlyfr Archwilio Mewnol yr Adran.

**Argymhelliad**

**30.** Gellir derbyn a defnyddio Datganiad o Sicrwydd Blynyddol Archwiliad Mewnol i gyfrannu at gynnwys tystiolaeth Datganiad o Reolaeth Fewnol 2007/08.